RCSLT
WALES
CYMRU

Ei aelodau yw Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

***Diolch*** i'n holl aelodau a fu'n ymwneud gyda'n gwaith dylanwadu yn y flwyddyn ddiwethaf.

# Uchafbwyntiau RCSLT Cymru

## Mehefin 2024/25




*Irma Donaldson, Pippa Cotterill, Jeremy Miles AS Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

**I gymryd rhan yn ein gwaith:**

Ewch i'n gwefan polisi Cymru **www.rcslt.org/wales**

- Darllen e-gylchlythyr deufisol polisi Cymru
- Mynychu digwyddiad galw heibio
- Ein ffonio neu anfon e-bost atom – walesoffice@rcslt.org 029 2002 5585

## Adroddiad Cyflwr y Genedl a dathlu'r 80

Rydym yn 80 oed yn 2025. I nodi'r garreg filltir bwysig hon, fe wnaethom gynnal digwyddiad i ddathlu yn y Senedd ym Mae Caerdydd a chyhoeddi ein hadroddiad blaenllaw Cyflwr y Genedl ar wasanaethau therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru.

Roedd yn wych gweld cynifer o aelodau a rhanddeiliaid yn bresennol yn y Senedd. Roeddem wrth ein bodd hefyd i'r gynulleidfa glywed gan Karen, defnyddiwr gwasanaeth sydd ag apracsia llafar ac adloniant cerddorol gan Gôr Cyfeillgar i Affasia Caerdydd a'r Fro.

### 'Galw uchel' am therapyddion iaith a lleferydd yng Nghymru



*Cyfweliad BBC Cymru gyda Nia Davies[1].*

**Effaith**

Mynychodd **24 o'r 60** Aelod o'r Senedd y digwyddiad, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a roddodd y prif anerchiad.

Fe wnaeth y digwyddiad a'r adroddiad ysbrydoli dadl gwrthblaid 60 munud yn y Senedd gan y Ceidwadwyr Cymreig ym mis Ionawr 2025.

Cafodd adroddiad Cyflwr y Genedl sylw ar Newyddion S4C Cymru a BBC Politics Wales.

## Anhwylder Datblygu Iaith (DLD)

**Yn dilyn y digwyddiad yn y Senedd y llynedd, mae Anhwylder Datblygu Iaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth dylanwadu ar gyfer ein tîm bychan.**

- Rhoddodd Pippa Cotterill, Pennaeth Swyddfa Cymru, gyflwyniad ar Anhwylder Datblygu Iaith yng nghynhadledd CBAC ar gyfer Swyddogion Pwnc ym mis Hydref 2024.
- Cyflwynodd Pippa hefyd sesiwn fyw Cymuned Ymarfer ar ddiwrnod ymwybyddiaeth Anhwylder Datblygu Iaith ar gyfer y tîm cenedlaethol Niwrowahaniaeth.
- Roedd gennym stondin gyda RADLD yn y Senedd ddydd Mawrth 15 Hydref 2024 i godi ymwybyddiaeth o Anhwylder Datblygu Iaith gydag Aelodau'r Senedd a swyddogion.

**Effaith**

Daeth **150** o bobl i sesiwn fyw Cymuned Ymarfer.

Galwodd **11** AS yn ein stondin yn y Senedd gyda phedwar yn postio llun a neges yn cefnogi ar ddiwrnod Anhwylder Datblygu Iaith.

## Plant a Phobl Ifanc

**Rydym wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau gan y Senedd ar Blant a Phobl Ifanc a rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd fel rhan o ymchwiliad i fynediad i addysg ar gyfer pobl ifanc.**

**Effaith**

Mae'r adroddiad terfynol a gyhoeddwyd yn mis Gorffennaf 2024 yn sôn am therapi lleferydd a iaith nifer o weithiau gydag argymhelliad allweddol:

**"Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r niferoedd presennol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd allweddol, nodi ble mae'r bylchau ar hyn o bryd, sut y bwriedir llenwi'r bylchau hyn a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi lefel debygol yr angen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen. Dylai hyn wedyn gael ei ategu gan gynllun cyflawni clir[1]."**

[1]Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru (2024). A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gwasanaethau plant? https://senedd.cymru/media/cr-ld16592-w.pdf

# Cynllun Iechyd Menywod

**Bu gan Naila Noori, ein Swyddog Materion Allanol, ran allweddol wrth lunio Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru. Mae diolch penodol i Naila o fewn y cynllun.**




**Effaith**

Mae Gweinidogion yn cydnabod ein harbenigedd mewn tegwch, amrywiaeth a pherthyn.

# Cyfiawnder

**Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad cynnydd ar gyfer Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd 18 mis o adroddiad y pwyllgor 60% Rhoi Llais Iddyn Nhw – anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.**

- Fe wnaethom baratoi papur gwybodaeth a chwrdd gyda nifer o Aelodau Seneddol o Gymru ar gyllid ar gyfer swyddi therapyddion lleferydd ac iaith o fewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.
- Fe wnaethom drefnu ymweliad ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru i'r gwasanaeth therapi a lleferydd yng Nghartref Plant Diogel Hillside.

**Effaith**

Sicrhawyd cyfarfod gyda Gweinidog yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chytunwyd ar gyllid parhad ar gyfer gwasanaethau.

# AHPF Cymru

Lansiwyd Ffederasiwn Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF Cymru) ym mis Ionawr 2025. Mae'r APHF yn bodoli ar draws y Deyrnas Unedig, ond mae'n newydd i Gymru. Mae Swyddogion Polisi yng Nghymru bob amser wedi cydweithio ar draws proffesiynau ond mae lansio AHPF Cymru gyda chyllid cysylltiedig yn ein galluogi i gydweithio'n fwy strategol ac effeithiol er budd ein aelodau. Caroline Walters, ein Rheolwr Materion Allanol, yw'r cadeirydd cyntaf.




**Effaith**

Cafodd AHPF Cymru gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym hefyd wedi creu maniffesto ar gyfer etholiadau 2026 i Senedd Cymru ac yn lobïo'r holl brif bleidiau gwleidyddol ar ein gofynion allweddol drwy gyfarfodydd unigol a phresenoldeb yng nghynadleddau'r pleidiau.